

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful)

### Adroddiad Asesu Blynyddol 2016-17

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen flynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Merthyr Tudful i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

#### 1) Crynodeb gweithredol

Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyflawni pob un o'r 18 hawl graidd yn llawn.

O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â tharged, mae Merthyr Tudful wedi cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Merthyr Tudful yn berfformiwr cryf ar y cyfan, gyda chymorth rhagorol gan ei gwsmeriaid. Mae lefelau staffio isel mewn awdurdod mor fach yn heriol ond croesewir y dystiolaeth ynghylch cynnydd yn y defnydd yn ogystal â'r allgymorth a'r ymgysylltu. Mae tystiolaeth dda o effaith y gwasanaeth, ac roedd y ffurflen yn cynnwys naratif cynhwysfawr i gefnogi'r data. Y gobaith yw y gall yr awdurdod a'r Ymddiriedolaeth gynnal y buddsoddiad yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod trigolion yn parhau i elwa o'r gwasanaethau.

- Cynhaliodd Merthyr Tudful arolwg effaith ym mis Mawrth 2017, a rhai o'i sgoriau wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 99% o blant yn credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu, tra bod 93% o oedolion a 92% o blant yn credu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Teimlai 96% o fynychwyr sesiynau hyfforddi eu bod wedi cael eu helpu i gyflawni eu hamcanion. Mae tair astudiaeth achos yn dangos effaith y gwasanaeth ar unigolion a grwpiau.
- Cynhaliodd Merthyr Tudful arolygon cwsmeriaid ym mis Mawrth 2017, ac mae wedi llwyddo i gael lefelau uchel o ran bodlonrwydd cwsmeriaid, gyda sgoriau'r oedolion ymysg y 4 awdurdod uchaf am bob mesur. Mae'r holl lyfrgelloedd yn cynnig yr ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol. Mae cefnogaeth dda i'r hyfforddiant i ddefnyddwyr, a dyma'r lefel uchaf o ran y nifer mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol yng Nghymru, a lefel uchaf hefyd ar hyfforddiant anffurfiol.
- Mae Merthyr Tudful yn cyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth. Cafwyd cynnydd i'w groesawu yn yr holl ddangosyddion yn ymwneud â defnydd (gan fynd yn groes i'r duedd yng Nghymru), er bod lefelau benthyciadau llyfrau yn siomedig o ystyried y sgôr uchel am fodlonrwydd cwsmeriaid ynghylch y dewis o lyfrau. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi gostwng yn sgil diwedd cyllid grant, ond mae'n parhau yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru.
- Mae cyllidebau llyfrau wedi'u gwarchod ac mae'r targedau ar gyfer derbyniadau wedi'u cyflawni. Mae'r ddarpariaeth TGCh yn dda, a defnydd da arni. Mae cyflymder cyflenwi ceisiadau wedi'i gynnal er bod nifer y ceisiadau wedi cynyddu, a'r canran

sy'n cael ei gyflenwi o fewn 7 diwrnod yw'r uchaf yng Nghymru erbyn hyn.

- Ni chafwyd toriadau pellach i nifer y staff, ond nid yw'r targedau wedi'u cyflawni, a dyma'r unig darged y mae'r gwasanaeth yn methu â'i gyflawni. Mae'r lefelau staffio cyffredinol yn parhau islaw'r canolrif ar gyfer Cymru, ac mae'r nodyn nad oes unrhyw newidiadau wedi'u cynllunio yn y cyllidebau cyfredol i'w groesawu. Mae cefnogaeth dda i wirfoddolwyr. Y gost net gyfartalog am bob ymweliad oedd £1.93, sy'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

O ran y pedwar maes yn y fframwaith o'i gymharu â gweddill Cymru, mae Merthyr Tudful yn perfformio'n dda ar *Cwsmeriaid a chymunedau*, a *Dysgu am oes*, ond ddim crystal ar *Mynediad i bawb* ac *Arweinyddiaeth a datblygu*.

O'i gymharu â'r llynedd, mae'r perfformiad wedi bod yn gyson, gyda gwelliannau i'w croesawu yn lefel y defnydd.

## 2) Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn yr hawliau craidd, y dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, y dangosyddion ansawdd sy'n dangos perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill, a'r mesurau effaith. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### a) Hawliau craidd

Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyflawni pob un o'r 18 hawl graidd yn llawn.

### b) Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith. O'r 7 sydd â thargedau, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol:

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau	✓	
c) Llythrennedd gwybodaeth	✓	
d) Cymorth e-lywodraeth	✓	
e) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 5 Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 8 Deunydd darllen cyfoes:		Cyflawni'n llawn
a) Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	✓	
b) Cyfradd adnewyddu	✓	
DA 9 Deunydd darllen priodol:		Cyflawni'n llawn
a) % y gyllideb deunyddiau ar blant	✓	
b) % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✗	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	✓	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 10 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) Pob man gwasanaeth	✓	
Cyfrifiaduron fesul pen y boblogaeth	✓	
b) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
a) Staff fesul pen y boblogaeth	✗	
b) Staff proffesiynol fesul pen y boblogaeth	✗	
c) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
d) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae hwn yn ddigynfnewid ers y llynedd.

### c) Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio casglu tystiolaeth o'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Drwy'r dangosyddion hyn a rhai eraill, mae'n bosibl gweld sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at agendâu addysgol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles, yn lleol a chenedlaethol. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn. Nid oedd pob awdurdod wedi casglu data ar gyfer y dangosyddion effaith, ac mae'r safleoedd felly wedi'u cynnwys yn ôl nifer yr ymatebwyr a nodir, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Merthyr Tudful arolwg effaith oedolion a phlant ym mis Mawrth 2017. Cofnodwyd gwelliannau yn y canrannau o'r arolwg plant, a gynhaliwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2016 yn amlach nag oedd raid.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	99%	3/19	68%	93%	100%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	93%	5/19	36%	86%	97%
% y plant sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	92%	5/17	58%	82%	98%
DA 4 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	96%	12/19	80%	97%	100%

Cyflwynodd Merthyr Tudful dair astudiaeth achos effaith da:

- Llythyr gan aelod o staff Gwirfoddoli'n Cyfrif yn disgrifio ei phrofiadau o dair llyfrgell wahanol.
- Prosiect celf a threftadaeth am hanes y Rhyfel Byd Cyntaf mewn dwy lyfrgell a'r bobl a oedd wedi cymryd rhan yn amlwg wedi mwynhau yn ôl eu dyfyniadau.
- Prosiect oedd â'r nod o hybu cynhwysiad cymdeithasol gweithwyr o Ddwyrain Ewrop mewn ffatri fisgedi. Roedd y cyfranogwyr yn frwdfrydig, a dysgwyd gwersi ynghylch datblygu prosiectau fel hyn yn y dyfodol.

#### d) Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i gymharu perfformiad rhwng awdurdodau. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Merthyr Tudful ar gyfer 2016-17. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer dwy flynedd gyntaf y fframwaith o ran DA 4 i DA 16 wedi'u hailadrodd er hwylustod cymharu. Noder bod y dangosyddion 'fesul pen' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2015/16 Safle	2014/15 Safle
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) sgiliau newydd	93%	1 /19	23%	71%	93%	
c) iechyd a lles	85%	4 /20	26%	56%	94%	
d) lle diogel a chroesawgar	99%	2 /19	93%	98%	100%	
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	96%	2 /20	74%	90%	98%	
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	4 /20	90%	99%	100%	
c) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	99%	2 /20	92%	97%	100%	
d) sgôr plant allan o ddeg	9.0	12/19	8.6	9.1	10.0	
DA 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	248	1	3	34	248	390 1
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen y boblogaeth	334	4 /20	1	156	712	344 3 / 19 336 3 / 21
DA 6 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,706	14	2,453	4,033	6,751	3,493 15 3,667 17
b) rhith-ymweliadau fesul pen y boblogaeth	994	10/21	341	922	2,299	869 14 635 17
c) benthycwyr gweithredol fesul pen y boblogaeth	161	9	77	153	235	145 14 156 11
DA 7 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	292	6	62	214	496	666 1 278 7
DA 11 Defnyddio TGCh - % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd						
a) offer	55%	3 /21	16%	32%	69%	57% 3 56% 2
DA 12 Cyflenwi ceisiadau						
a) % ar gael o fewn 7 diwrnod	82%	1 /21	48%	70%	82%	82% 2 80% 3
b) % ar gael o fewn 15 diwrnod	90%	4 /21	65%	85%	96%	90% 5 88% 6
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	66	5	0	24	209	52 4 28 6
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	640	13	0	798	5,156	978 9 846 8
DA 14 Gwariant gweithredol						

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2015/16	Safle	2014/15	Safle	
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£9,330	18/21	£6,745	£11,979	£16,968	£9,655	19/21	£10,931	20
b) % ar staff	58%	12/21	46%	58%	75%	58%	12/21	55%	13
% ar adnoddau gwybodaeth	24%	2/21	4%	13%	25%	23%	1/21	21%	1
% ar offer ac adeiladau	4%	9/21	0%	4%	20%	3%	12/21	5%	10
% ar gostau gweithredol eraill;	14%	15/21	9%	22%	37%	16%	12/21	18%	14
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£1,351	4/21	£0	£341	£16,692	£0	14/21	£1,801	4
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.93	17/20	£1.50	£2.33	£3.30	£2.13	17/21	*	
DA 16 Oriau agor ( <i>gweler y nodyn</i> )									
(ii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1	0.00%	0.00%	0.48%	0.00%	1	0%	1
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/19	0.00%	0.13%	8.33%	0.00%	1/19	0%	1/19

*Nodyn: Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).*

*\* Ni chyflwynwyd data incwm ar gyfer 2014-15 er mwyn cyfrifo'r ffigwr hwn.*

Dim ond tri awdurdod a gyflwynodd ddata ynghylch y defnydd ar Wi-Fi yn ystod 2016-17 ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y tabl uchod.

### 3) Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi cael eu rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd yn y pedwar maes hynny, ac yn cymharu'r canlyniadau â rhai dwy flynedd gyntaf y fframwaith.

#### a) Cwsmeriaid a chymunedau

Cynhaliodd Merthyr Tudful arolygon cwsmeriaid ym mis Mawrth 2017, gan gael canlyniadau tebyg i'r arolwg blaenorol yn 2016. Lefelau bodlonrwydd â'r dewis o lyfrau yw'r ail uchaf yng Nghymru, gan fod â chanran uchaf yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ennill sgiliau newydd. Mae'r holl lyfrgelloedd yn cynnig yr ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ystyrir bod mynediad TGCh yn enwedig o bwysig i'r gymuned. Mae nifer dda yn parhau i fynychu hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr, gan fod â'r lefel uchaf fesul pen y boblogaeth yng Nghymru.

#### b) Mynediad i bawb

Mae Merthyr Tudful yn cyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth. Mae'r holl ddangosyddion yn ymwneud â defnydd wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd, er bod benthyciadau llyfrau fesul pen y boblogaeth yn parhau ymysg yr isaf yng Nghymru. Ar ôl blwyddyn o gael cyllid grant i gynnal amrywiaeth o weithgareddau y tu allan i'r amgylchedd llyfrgell traddodiadol, mae'r nifer sy'n mynychu wedi gostwng eleni, ond mae'n parhau yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru.

#### c) Dysgu am oes

Mae Merthyr Tudful yn cyflawni'r targedau ar gyfer derbyniadau yn gyffredinol, a dyma'r ail

gyfradd adnewyddu uchaf yng Nghymru. Mae hefyd yn cyrraedd y targedau ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau plant a deunyddiau yn yr iaith Gymraeg, ond cofnoda bod angen gwneud mwy i hyrwyddo'r defnydd ar y stoc Gymraeg. Cyflawnir y targedau ar gyfer gwasanaethau ar-lein, ac mae defnydd da yn dal i fod ar y cyfleusterau. Cafwyd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio'r rhwydwaith Wi-Fi ar eu dyfeisiau eu hunain, ond nid yw'r awdurdod yn gallu mesur hwn yn ffurfiol. Mae nifer y ceisiadau yn parhau i gynyddu, yn enwedig ar-lein, ac mae'r cyflymder cyflenwi ceisiadau wedi'i gynnal.

#### **d) Arweinyddiaeth a datblygu**

Mae'r niferoedd staff wedi'u cadw ar lefelau'r llynedd, ac nid ydynt yn cyrraedd y targedau a osodwyd, ac nid oes gan y gwasanaeth unrhyw gynlluniau i newid hyn o fewn y cyllidebau presennol. Mae'r targed ar gyfer hyfforddiant staff wedi'i gyrraedd ac mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i DPP i'r holl staff. Mae Merthyr Tudful wedi cynyddu nifer y gwirfoddolwyr, gyda 66 yn ystod y flwyddyn, a phob un yn rhoi cyfartaledd o 10 awr i'r gwasanaeth. Caiff y gwirfoddolwyr eu rheoli'n dda, gan fod â disgrifiadau ysgrifenedig o'r rôl, cyflwyniad sy'n benodol i'w safle a hyfforddiant perthnasol.

Cafwyd gostyngiad bychan arall yn y gwariant refeniw, gyda chyfrannau ar gyfer staff a stoc wedi'u cynnal. Mae'r gost gyfartalog am bob ymweliad hefyd wedi gostwng, sef 9%, a hynny'n rhannol oherwydd y cynnydd mewn ymweliadau, ac mae ymysg yr isaf yng Nghymru. Mae'r oriau agor estynedig y rhoddwyd treial arnynt y llynedd wedi'u cynnal, ac ni chafodd unrhyw wasanaeth ei gau heb gynllunio gwneud hynny yn ystod y flwyddyn.

#### **4) Cyd-destun strategol**

Cyflwynodd Merthyr Tudful naratif clir yn disgrifio cyfraniad y gwasanaeth llyfrgell i bedwar maes deilliant allweddol, sef dysgu a datblygu sgiliau i wneud y mwyaf o botensial, economi cryf, cynaliadwy ac amrywiol, bywydau iachach o well ansawdd, a lle diogel a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddo.

#### **5) Cyfeiriad i'r dyfodol**

Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r heriau yn sgil y lefelau staffio isel, sy'n annhebygol o newid. Maent yn ystyried modelau staffio gwahanol ochr yn ochr â chydleoli manau gwasanaeth i ddatblygu gwasanaethau ac annog rhagor o ddefnydd. Mae statws yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi mwy o waith ar draws adrannau i staff ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer arferion gweithio ar y cyd.

#### **6) Casgliad**

Mae Merthyr Tudful yn berfformiwr cryf ar y cyfan, gyda chymorth rhagorol gan ei gwsmeriaid. Mae lefelau staffio isel mewn awdurdod mor fach yn heriol ond croesewir y dystiolaeth ynghylch cynnydd yn y defnydd yn ogystal â'r allgymorth a'r ymgysylltu. Mae tystiolaeth dda o effaith y gwasanaeth, ac roedd y ffurflen yn cynnwys naratif cynhwysfawr i gefnogi'r data. Y gobaith yw y gall yr awdurdod a'r Ymddiriedolaeth gynnal y buddsoddiad yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod trigolion yn parhau i elwa o'r gwasanaethau.